Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Feithrinfa Ddydd Toybox

**Canolfan Addysg Amgen**
**Coleg Cambria**
**Ffordd Celstryn**
**Cei Connah**
**Sir y Fflint**
**CH5 4BR**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Meithrinfa Ddydd Toybox

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa Ddydd Toybox |
| Categori'r gofal a ddarperir | |
| Person(au) cofrestredig | Ann Johnson |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Ann Johnson |
| Nifer y lleoedd | 106 |
| Ystod oedran y plant | 0-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 55 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 23 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener, 08:00am - 05:45pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' y Gymraeg, ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Tachwedd 2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Mawrth 2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 02/07/2024 |
| | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Datblygu cyfleoedd ymhellach i feithrin diddordebau plant i gynyddu ymgysylltiad a datblygu dysgu estynedig

A2 Sicrhau defnydd gwell o’r gofod ehangach yn yr awyr agored i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu ymwybyddiaeth plant o’r amgylchedd ymhellach

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar ei waith yn ymwneud â gweithio mewn partneriaeth â rhieni, i’w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae gan bron bob un o'r plant lais cryf iawn. Maent yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn hyderus am beth sy'n effeithio arnyn nhw, er enghraifft wrth benderfynu pa rawnfwyd i'w ddewis. Maent yn dewis eu hadnoddau eu hunain, sy'n eu galluogi i ddatblygu eu chwarae yn dda. Mae bron pob un o'r plant yn mynegi eu hunain yn dda trwy gyfathrebu llafar a dieiriau, gan eu bod yn gwybod y bydd ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn gadarnhaol iddynt. Mae'r plant yn dewis pryd hoffent wrando ar stori ac yn swatio gydag ymarferwr sy'n darllen gyda nhw. Mae plant o bob oedran yn cyfathrebu'n llwyddiannus yn eu ffordd eu hunain ac mae ymarferwyr yn ymateb iddynt yn fedrus.

Mae bron pob un o'r plant yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn awyddus i ddechrau chwarae. Maent yn ymgynefino'n gyflym ac yn ymdopi'n dda wrth adael rhieni a gofalwyr. Mae gan blant berthnasoedd cynnes a chlòs ag ymarferwyr ac maent yn derbyn llawer o gymorth a chysur os bydd angen, sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y lleoliad. Maent yn hyderus ac yn rhannu cyflawniadau gydag ymarferwyr, er enghraifft gan ddangos yn falch pa mor uchel y gallant neidio. Mae plant yn ymuno â chaneuon yn frwdfrydig ac yn dangos eu bod yn hapus trwy ganu a churo dwylo'n ddigymell.

Mae bron pob un o'r plant yn ymwybodol o arferion y lleoliad, ac yn eu dilyn yn dda. Maent yn gwneud dewisiadau pwrpasol ynglŷn â ble maent yn dymuno chwarae, ac yn symud yn hyderus rhwng gweithgareddau. Maent yn rhyngweithio a chwarae'n dda ochr yn ochr â phlant eraill, yn briodol i'w cyfnod datblygu. Mae plant yn cydweithredu'n dda ac yn cymryd eu tro. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol, er enghraifft trefnu darn o bren ar wahanol onglau i weld a yw'n gwneud i bryf cop tegan symud yn gyflymach. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn garedig ac ystyriol at ei gilydd, ac yn helpu trwy wthio beic dros y bont neu adael i ffrind chwarae ar y bwrdd cerddorol. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda wrth dacluso teganau yn barod i fynd y tu allan.

Mae bron pob un o'r plant yn gwrando ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n dda. Mae ganddynt hyder i ofyn am gymorth pan fydd angen, er enghraifft wrth ofyn am help i dynnu'r caead oddi ar botel o swigod. Mae plant yn ymwybodol o reolau syml, fel dod i'r bwrdd byrbryd pan fydd lle. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu hannibyniaeth a'u medrau hunangymorth yn dda. Maent yn tywallt eu diodydd eu hunain, yn dewis grawnfwyd ac estyn amdano, ac yn dewis ffrwythau gyda'r cymorth lleiaf. Mae plant hŷn yn dysgu sut i wisgo'u cotiau ac yn rhannu hyn â rhieni yn gynhyrfus pan fydd yn amser mynd adref. Mae bron pob un o'r plant yn bwydo'u hunain amser cinio, gan ddefnyddio cyllyll a ffyrc yn fedrus, ac yn mynd i nôl eu diodydd eu hunain yn rhwydd.

Mae bron pob un o'r plant yn egnïol ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn dangos diben a chwilfrydedd wrth iddynt gymryd rhan mewn

gweithgareddau. Er enghraifft, maent yn chwilfrydig am dractorau ac yn edrych yn ofalus i ddod o hyd i'r gwahanol rannau. Maent yn mwynhau dysgu am y byd o'u cwmpas a phwysigrwydd trychfilod wrth ddathlu Diwrnod Gwenyn.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron pob un o'r plant, gan gynnwys y rhai sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Maent yn mwynhau eu dysgu ac yn cyflawni'n dda yn eu gweithgareddau. Mae medrau cyfathrebu'r rhan fwyaf o'r plant yn dda. Maent yn defnyddio iaith briodol mewn chwarae digymell a strwythuredig. Er enghraifft, maent yn trafod sut byddant yn cludo dŵr ar hyd stribedi mawr o landeri. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn mynegi eu hunain â hyder. Mae ychydig o blant yn defnyddio geirfa gyfoethog i gyfleu'r hyn y maent yn ei wneud wrth baratoi prydau bwyd yn y gornel gartref. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu hunain yn hyderus yn Gymraeg. Er enghraifft, maent yn dweud 'golchi dwylo' cyn mynd i olchi eu dwylo ac yn ailadrodd geiriau ac ymadroddion cyfarwydd o stori pan gaiff ei darllen iddynt. Mae bron pob un o'r plant yn dangos diddordeb mewn llyfrau ac yn mwynhau gwrando ar storïau'n cael eu darllen iddynt gan ymarferwyr. Mae tua hanner y plant yn defnyddio llyfrau yn annibynnol gan droi'r tudalennau yn eu trefn, ac mae ychydig iawn ohonynt yn dechrau darllen yn annibynnol. Mae bron pob un o'r plant yn gwrando'n dda ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n ofalus. Er enghraifft, maent yn nôl tywelion papur i sychu eu dwylo neu'n casglu eu cotiau ar gyfer chwarae yn yr awyr agored.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau creu marciau ac yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn briodol. Maent yn ceisio ysgrifennu eu henw ar y lluniau a wnânt. Mae medrau corfforol llawer o blant yn datblygu'n dda. Er enghraifft, maent yn trin platiau go iawn yn ofalus yn y gornel gartref. Mae plant yn dilyn cyfarwyddiadau i neidio, rhedeg a hopian yn yr ardal awyr agored. Maent yn trin offer adeiladu yn ofalus ac yn taro hoelion i mewn i ddarnau o bolystyren yn llwyddiannus. Maent yn datblygu eu medrau cydsymud trwy weithgareddau fel llenwi bwcedi â dŵr a'u trosglwyddo i'r cafn dŵr â chywirdeb a rheolaeth gynyddol. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau echddygol manwl ac yn gwneud dewisiadau hyderus am yr adnoddau a ddefnyddiant. Er enghraifft, maent yn trin toes chwarae i wneud cacennau ac yn rholio toes allan ac yn torri siapiau allan â thorwyr toes yn gywir. Mae llawer o blant yn defnyddio gefeiliau i godi pryfed genwair gwlân tonnog.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu ystod eang o fedrau rhifedd ac yn eu defnyddio yn eu chwarae yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cyfrif nifer yr hoelion yn eu modelau yn gywir. Mae plant yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur. Er enghraifft, mae ychydig o blant yn defnyddio prennau mesur i fesur y rampiau y maent yn eu hadeiladu â blociau mawr ac yn disgrifio cynwysyddion dŵr fel llawn neu wag. Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn dda. Cânt gyfleoedd gwerthfawr i fynegi eu hunain trwy grefft, cerdd a symud. Maent yn cymysgu paentiau ac yn creu paentiadau, ac yn dawnsio i gerddoriaeth. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu eu medrau personol annibynnol yn dda. Maent yn dechrau gwisgo'u cotiau, a'u cau, ac yn helpu eu hunain i ddiod. Mae lleiafrif o blant yn trin cyllyll a ffyrc yn effeithiol ac yn

torri eu cinio'u hunain. Mae plant yn datblygu medrau digidol da ac yn defnyddio camerâu digidol i dynnu llun o'u gwaith. Mae bron pob un o'r plant yn datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol effeithiol ac yn cydweithredu'n dda â'i gilydd wrth iddynt chwarae.

**Gofal a datblygiad: Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn cefnogi iechyd a lles plant yn hynod effeithiol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth ragorol o sut i amddiffyn plant, ac yn gwybod beth i'w wneud os oes ganddynt unrhyw bryderon. Caiff pob un o'r ymarferwyr hyfforddiant addas, ac mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu yn bodloni gofynion yn llawn, ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae ymarferwyr yn darparu cymorth rhagorol ar gyfer plant. Er enghraifft, pan fyddant yn cyrraedd y lleoliad, maent yn rhoi digonedd o amser i'r plant ymdawelu a chwarae. Mae'r lleoliad wedi rhoi'r holl bolisïau priodol ar waith, ac mae ymarferwyr yn rhoi sylw rhagorol i weithdrefnau'r lleoliad o ran hylendid, iechyd a diogelwch, er enghraifft gwisgo ffedogau a menyg i atal croes-heintio. Mae ymarferwyr yn darparu byrbrydau a phrydau iach ar gyfer plant, ynghyd â llaeth neu ddŵr i'w yfed. Maent yn sicrhau bod dŵr ar gael i blant bob amser, ac yn eu hatgoffa'n dyner i gael diod yn ystod y dydd. Maent yn sicrhau bod alergeddau plant yn cael eu cofnodi ac yn defnyddio system platiau lliwiau gwahanol fel bod pawb yn gallu mwynhau eu bwyd yn ddiogel. Mae cofnodion plant yn gyflawn, yn cynnwys anghenion gofal iechyd cynhwysfawr, er mwyn i ymarferwyr allu darparu lefel uchel o ofal ar gyfer y plant. Mae ymarferwyr yn llenwi cofrestr yn rhoi manylion am bresenoldeb, yn nodi mân anafiadau, ac yn tynnu sylw rhieni a gofalwyr at y rhain yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn garedig, yn ofalgar a chefnogol, ac yn rhyngweithio â phlant mewn modd pwyllog a thyner. Maent yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol, sy'n hynod effeithiol. Mae hyn yn creu awyrgylch cadarnhaol, hapus a difyr yn y lleoliad. Mae system gweithwyr allweddol ar waith, sy'n sicrhau bod ymarferwyr yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda. O ganlyniad, mae plant yn teimlo'n ddiogel a hapus, ac fe gaiff eu hanghenion unigol eu diwallu'n eithriadol o dda. Mae ymarferwyr yn ymgysylltu â phlant ac yn ymestyn eu chwarae yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio canmoliaeth yn rheolaidd, gan gynnwys defnydd o'r Gymraeg yn aml. Maent yn gwybod pryd i sefyll yn ôl ac yn galluogi plant i ddarganfod ar eu pen eu hunain, a phryd i ymyrryd i symud y dysgu ymlaen. Er enghraifft, maent yn annog plant i adeiladu tŵr neu ddyfalbarhau yn hirach â jig-so buarth fferm. Mae ymarferwyr yn wyliadwrus, ac yn atgoffa'r plant am reolau syml fel golchi eu dwylo ar ôl byrbryd.

Mae ymarferwyr wedi creu perthnasoedd hynod lwyddiannus â rhieni. Maent yn rhannu ffotograffau a fideos â rhieni er mwyn iddynt allu gweld yn fanwl y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud bob dydd trwy ap. Maent hefyd yn sicrhau bod digon o amser i siarad â rhieni cyn neu ar ôl y sesiwn os ydynt yn dymuno. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn eithriadol o dda ac maent yn addasu'r ddarpariaeth i ymateb yn effeithiol i anghenion unigol y plant. Maent yn defnyddio gwybodaeth wedi'i darparu gan rieni am eu plentyn yn effeithiol wrth ystyried y ddarpariaeth. Mae

ymarferwyr yn adnabod cyfleoedd i ymestyn gwybodaeth a chwilfrydedd plant yn effeithiol, er enghraifft wrth ofyn i blant sut mae'n teimlo i ddal pryf cop bach iawn yn eu dwylo. Mae ymarferwyr yn darparu lefel eithriadol o ofal ar gyfer pob un o'r plant.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatblygiad y plentyn. Maent yn darparu ystod werthfawr o weithgareddau sy'n hyrwyddo datblygiad cyflawn plant, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu dros gyfnod. Mae cynllunio ymarferwyr yn rhoi ystyriaeth dda i egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, ac mae'r cynllunio ar gyfer medrau yn rhagorol. Mae'r lleoliad wedi datblygu cyfres o becynnau rhieni gyda set ragorol o adnoddau er mwyn i blant allu ymarfer eu medrau rhifedd, darllen a thorri ar yr aelwyd. Mae ymarferwyr yn dechrau ystyried datblygu gweithgareddau wedi'u seilio ar ddiddordebau plant. Fodd bynnag, collir ychydig o gyfleoedd i gynyddu ymgysylltiad a datblygu dysgu estynedig.

Mae systemau'r lleoliad ar gyfer cofnodi, monitro ac adrodd ar gynnydd plant yn effeithiol, ac mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu yn seiliedig ar ddysgu blaenorol plant yn dda. Cedwir arsylwadau a chofnodion manwl ar gynnydd plant, a chaiff targedau unigol eu nodi, eu gweithredu a'u monitro'n effeithiol. Mae'r lleoliad yn ymgysylltu â rhieni a gofalwyr i gael persbectif o gryfderau a meysydd i'w datblygu pob plentyn. Ceir wythnosau ffocws penodol i gasglu tystiolaeth ar gyfer plant unigol, ac mae rhieni'n cyfrannu at y broses honno ac yn amlygu diddordebau a chyflawniadau plant ar yr aelwyd.

Mae ymarferwyr yn gwybod pryd i ymyrryd yng ngweithgareddau plant, a phryd i sefyll yn ôl ac arsylwi. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o ymddygiad pob un o'r plant, ac o ganlyniad, maent yn dysgu sut i uniaethu'n gadarnhaol â phobl eraill a chymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Mae ymarferwyr yn fodelau rôl iaith effeithiol. Maent yn defnyddio cwestiynau'n dda, i herio a chynorthwyo plant yn eu dysgu wrth iddynt chwarae. Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau ac adnoddau buddiol i blant ddatblygu eu medrau creu marciau ac ysgrifennu cynnar yn ardaloedd y ddarpariaeth sy'n llawn offer. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd plant trwy ddefnyddio ystod o offer cyfrif, mesur a didoli ar draws y ddarpariaeth, er enghraifft trwy gyfrif allan y cacennau a wnânt yn yr ardal toes chwarae. Caiff adnoddau i ddatblygu medrau digidol plant fel camerâu digidol eu defnyddio'n dda.

Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi proses greadigol y plant. Maent yn annog mynegiant unigol, a chaiff darnau o waith celf eu harddangos ar lefel llygad plant. Mae ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r broses ac nid y cynnyrch terfynol. Maent yn annog plant i archwilio yn yr ardal awyr agored ac yn eu helpu i ddatblygu synnwyr o barchedig ofn a rhyfeddod, er enghraifft wrth dyfu ffa mewn potiau a thyfu blodau mewn blychau plannu yn yr ardal awyr agored. Fodd bynnag, ni chaiff ardal goedwig y lleoliad ei defnyddio'n llawn i helpu plant i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r amgylchedd yn well. Mae ymarferwyr yn adnabod cyfleoedd i ymestyn meddwl plant,

er enghraifft wrth annog plant i ddatrys sut i ddefnyddio pympiau dŵr i seiffno dŵr. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn effeithiol. Mae plant yn dysgu am ystod o ddathliadau, gan gynnwys y rhai o'u crefyddau a'u diwylliannau eu hunain. Caiff baneri a chyfarchion o amrywiaeth o wledydd eu harddangos yn amlwg, ac mae hyn yn helpu creu cymuned gynhwysol ac amrywiol. Mae ymarferwyr yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch, ac yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu plant i wahaniaethu rhwng da a drwg.

**Yr amgylchedd:  Da**

At ei gilydd, mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylcheddau dan do ac awyr agored yn addas o ddiogel, saff ac yn cael eu cynnal a chadw'n dda. Caiff plant eu goruchwylio'n dda ac mae asesiadau risg yn nodi ac yn mynd i'r afael ag unrhyw beryglon posibl i gadw plant yn ddiogel. Mae arweinwyr yn sicrhau lefel effeithiol o hylendid ac amserlen lanhau, ac mae sylw da i reoli heintiau yn golygu bod y lleoliad yn berffaith lân.

Mae'r amgylchedd yn olau, yn llachar a chroesawgar gyda lliwiau a deunyddiau niwtral sy'n sicrhau bod gwaith plant yn ganolbwynt. Mae arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod plant yn derbyn gofal da mewn amgylchedd dysgu cefnogol a hamddenol, sy'n ystyried anghenion unigol plant yn dda. Mae digonedd o ofod i symud o gwmpas, ac mae'r arddangosfeydd o waith a ffotograffau plant yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad iddynt. Mae arddangosfa ar y wal o siart achau yn sicrhau bod gan blant ymdeimlad o berthyn. Mae mannau storio isel a basgedi wedi'u labelu yn golygu y gall plant fynd at adnoddau yn annibynnol. Mae byrddau pren, cadeiriau, rygiau a chlustogau ar lefel briodol isel yn galluogi pawb i chwarae ar y lefel o'u dewis a dysgu gyda'i gilydd. Mae'r ffordd y caiff ardaloedd cysurus eu creu gyda digonedd o lyfrau yn meithrin cariad at ddarllen. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn cael ei drefnu i ddarparu cymuned gwbl gynhwysol lle caiff pob un o'r plant yr un cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau ac yn ardaloedd y ddarpariaeth. Er bod ystod eang o ardaloedd ar gyfer gweithgareddau chwarae, mae glynu at amserlen benodol yn golygu nad yw plant yn cael mynediad rhydd i'r awyr agored. Nid yw arweinwyr yn defnyddio'r amgylchedd dysgu ehangach yn yr awyr agored fel yr ardal goediog a'r ardd natur yn ddigonol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod plant yn gallu manteisio'n hawdd ar ystod o adnoddau ac offer sydd o ansawdd da, y mae llawer ohonynt wedi'u hailgylchu, fel bwrdd a seddi wedi'u creu o gratiau pren. Ceir darnau rhydd ar gyfer adeiladu a theiars y tu allan ar gyfer plannu, a chegin yn llawn offer, potiau a sosbenni metel, sy'n ychwanegu elfen bywyd go iawn at chwarae'r plant. Mae hyn yn sicrhau bod plant yn datblygu chwilfrydedd naturiol ac yn ymgysylltu â chwarae yn bwrpasol. Mae ardaloedd ar gyfer balansio a llithro yn gwbl hygyrch ac yn galluogi plant i ddatblygu gwahanol fedrau corfforol. Caiff cymuned amrywiol ei hadlewyrchu'n effeithiol gan ffigurau, storïau a dathlu traddodiadau o wahanol wledydd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Rhagorol

Mae arweinwyr ac ymarferwyr wedi creu ethos tîm cryf a chadarnhaol iawn, ac mae pob un ohonynt wedi ymrwymo i nodau'r lleoliad. Mae arweinwyr yn sicrhau bod datganiad diben clir sy'n hysbysu rhieni'n llawn am waith y lleoliad a'r hyn sydd ganddo i'w gynnig. Mae gan ymarferwyr ymdeimlad cryf o ddiben ac maent yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Mae arweinwyr yn eithriadol o effeithiol yn eu rolau ac wedi creu amgylchedd cynhwysol a chroesawgar, sy'n sicrhau bod plant yn cael eu meithrin yn dda ac yn derbyn gofal da. Maent yn cydymffurfio'n llawn â rheoliadau a safonau gofynnol cenedlaethol.

Mae arweinwyr yn meddu ar ymwybyddiaeth fanwl o gryfderau'r lleoliad a'i feysydd i'w datblygu. Maent yn rhoi ystyriaeth lawn i farn ymarferwyr, rhieni neu ofalwyr, plant, a rhanddeiliaid eraill yn eu penderfyniadau. Ceir system sefydledig a chadarn ar gyfer cynnal arfarniadau staff a goruchwyliadau mynych. Cynhelir y rhain ar ffurf 'sgyrsiau cysylltu', sy'n nodi targedau ar gyfer dysgu proffesiynol yn glir. Maent hefyd yn ystyried lles staff. O ganlyniad, mae hyn yn sicrhau gwelliannau parhaus mewn darpariaeth. Mae gan y lleoliad gynlluniau wrth gefn addas ar gyfer staffio ac mae cyflogeion newydd yn derbyn proses ymsefydlu ragorol.

Mae pob ymarferwr yn meddu ar lefel uchel o gymwysterau a llawer o brofiad o weithio gyda phlant ifanc. Mae pob un o'r staff yn dangos ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus ac yn mynychu hyfforddiant rheolaidd, fel Cwricwlwm i Gymru, a datblygiad y plentyn a diogelu, sydd wedi dod â newidiadau cadarnhaol i amgylchedd y lleoliad. Mae arweinwyr yn blaenoriaethu datblygiad medrau Cymraeg ymarferwyr ac yn cynllunio'n strategol ar gyfer y Gymraeg ar draws y lleoliad. Mae'r lleoliad yn gweithredu ar gyngor gan yr awdurdod lleol ac mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o grantiau sydd ar gael, er enghraifft prynu offer i gefnogi datblygiad medrau plant ac ymestyn cymhwysedd digidol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd da o'r cysylltiadau agos y maent wedi'u datblygu â'r coleg lleol. Mae plant yn ymweld â'r coleg yn rheolaidd ac yn cymryd rhan mewn gweithgareddau lles, a chael dosbarthiadau ymarfer corff rheolaidd. Caiff y gweithgareddau hyn effaith gadarnhaol ar eu medrau cymdeithasol, corfforol ac emosiynol. Mae ymgysylltiad y lleoliad â rhieni yn rhagorol. Maent yn cynnal sesiynau chwarae ac aros rheolaidd, a chaiff rhieni eu cynnwys yn llawn yn nhrefniadaeth y lleoliad. Mae cyfathrebu yn rhagorol, ac o ganlyniad, caiff rhieni eu hysbysu'n llawn, ac maent yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys ac yn rhan o'r lleoliad. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i rieni yn gyson gan ddefnyddio cymhwysiad rhyngweithiol, a thrwy gyfarfodydd rheolaidd, sy'n rhoi gwybod iddynt am gynnydd eu plentyn. Caiff plant newydd eu sefydlu yn y lleoliad yn llwyddiannus, a chynigir ymweliadau graddol i rieni a phlant cyn dechrau. Mae trefniadau pontio ar waith i gynorthwyo plant sy'n symud ymlaen. Mae gan y lleoliad siwmperi'r ysgol yn yr ardal gwisgo i fyny, ac mae athrawon dosbarthiadau meithrin yn ymweld â'r lleoliad. O ganlyniad, mae plant yn llawn cyffro ac yn hyderus am bontio i'r ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn gwerthuso effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/09/2024